# Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH

## EDT2 10-05 (p1)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14 Gorffennaf 2005 |
| **Amser:** | 2:00 - 3.20 |
| **Lleoliad:** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd |
| **Teitl:** | Awdurdod Datblygu Cymru: Adroddiad Blynyddol 2004-05 |

### Diben a chamau i'w cymryd

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r cefndir i'r Pwyllgor ynglyn ag Adroddiad Blynyddol Awdurdod Datblygu Cymru ar gyfer 2004-2005 (Atodiad A) a'i Gynllun Busnes ar gyfer 2005-2006 (Atodiad B).

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi Adroddiad Blynyddol 2004-2005 a Chynllun Busnes 2005-2006.

3. Bydd swyddogion o'r WDA yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor i gyflwyno'r papurau ac ateb cwestiynau, sef:

- Gareth Hall (y Prif Weithredwr)
- Tracey Burke (Cyfarwyddwr Gweithredol – Datblygu Strategaeth)
- Gretel Leeb (Cyfarwyddwr Gweithredol dros dro – Cymorth Busnes)

### Y cefndir

#### Adroddiad yr Ysgrifennydd Parhaol ar Ofal Dyladwy ynglyn ag uno Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

4. Mae'r Gweinidog wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol gynnal adolygiad o ofal dyladwy ynglyn â fframweithiau rheoli'r cyrff cyhoeddus sy'n cael eu noddi gan y Cynulliad. Nod yr adolygiad yw sicrhau

bod y dulliau rheoli mewnol yn ddigonol wrth baratoi ar gyfer uno'r cyrff hyn â'r Cynulliad. Bydd rhagor o fanylion yr adolygiad yn cael eu nodi mewn papur ar wahân i'r Pwyllgor

### Adroddiad Blynyddol Awdurdod Datblygu Cymru 2004-2005

5. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi crynodeb o berfformiad yr Awdurdod o'i gymharu â'i dargedau strategol a gweithredol ar gyfer 2004-2005 fel y'u nodwyd yn y Cynllun Busnes y llynedd.

### Cynllun Busnes Awdurdod Datblygu Cymru ar gyfer 2005-2006

6. Mae'r Cynllun Busnes yn nodi'n fanwl sut mae'r Awdurdod yn bwriadu gwireddu blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer 2005-2006.

### Blaenoriaethau

7. Does dim blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd 2006-2007 a 2007-2008 wedi'u cynnwys yn y cynllun eleni, a hynny am eu bod y tu hwnt i uniad yr Awdurdod â'r Cynulliad. Caiff y blaenoriaethau hyn eu hystyried ochr-yn-ochr â blaenoriaethau'r Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth at y cyfnod ar ôl uno.

## Targedau

8. Fel y dywedwyd yn y Cynllun Busnes y llynedd, mae'r Awdurdod wedi adolygu diffiniadau ei dargedau strategol (ac wedi diwygio rhai ohonyn nhw). O ganlyniad i hynny, mae rhai o dargedau 2005-2006 yn ymddangos yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol. Y ddau gategori y mae'r newidiadau hyn wedi effeithio arnyn nhw fwyaf yw nifer y swyddi sydd wedi'u diogelu a buddsoddiadau'r sector cyhoeddus.

9. Hefyd, yn unol â'r arferion gorau mewn mannau eraill yn y sector cyhoeddus, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu amrediadau o dargedau yn hytrach na ffigurau absoliwt.

## Cyfalaf a Refeniw

10. Mae'r Cynllun Busnes yn nodi sut mae'r Awdurdod yn bwriadu gwireddu'r blaenoriaethau a nodwyd yn Llythyr Cyfarwyddyd a Blaenoriaethau'r Awdurdod, y cytunodd y Pwyllgor arno. Fel y digwyddodd y llynedd, mae cynlluniau gwariant yr Awdurdod yn cyd-fynd â'r gyllideb a nodwyd o ran cyfanswm er nad yw amcangyfrifon cychwynnol yr Awdurdod o'r cydbwysedd rhwng gwariant cyfalaf a refeniw yn cyfateb yn union i'r rhai sydd wedi'u pennu gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Awdurdod a Llywodraeth y Cynulliad, fel y llynedd, yn bwriadu rheoli'r anghydbwysedd yma yn ystod y flwyddyn a hynny drwy'r prosesau cyllidebu a rheoli ariannol mewnol.

## Cydymffurfio

11. Cafodd yr Awdurdod ei sefydlu gan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y’i diwygiwyd) ("y Ddeddf "). Mae’r pwerau o dan y Ddeddf wedi’u trosglwyddo i’r Cynulliad ac wedi’u dirprwyo i’r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a’i staff.

12. Mae Atodlen 3 i’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i’r Awdurdod baratoi adroddiad cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn gyfrifydda i ymdrin â gwaith yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn honno, ac mae Adran 4.4.1 o Ddatganiad Rheoli’r Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i’r Awdurdod gyflwyno adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau i’r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

13. Mae Adran 1(14) o’r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod, ar ôl iddo ymgynghori ag unrhyw awdurdodau lleol ac unrhyw gyrff eraill sydd â buddiant ym marn yr Awdurdod, i baratoi rhaglenni ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau a’u cyflwyno i gael eu cymeradwyo.

## Y goblygiadau ariannol

14. Does dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

FOR COPIES OF ANNEX A & B PLEASE E-MAIL THE COMMITTEE MAILBOX:

economic.comm@wales.gsi.gov.uk